

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yn rhithiol am 7.00pm Nos Fercher 27<sup>ain</sup> o Ebrill 2022

## Agenda

1. Presennol
2. Ymddiheuriadau
3. Cod Ymddygiad
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 31-03-2022
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Adroddiad Ariannol
7. Archwyllo Allannol
8. Taliadau angen sylw
  1. Cyflog Ebrill £610.44
  2. HMRC Ebrill M1 £152.40
  3. Costau stampia a postio i Dwr Cymru £47.13
  4. 2 Doriad gwair yn Cae Chwarae Caerhun j Devlin £150.00
  5. Franc Trydanwr y peiriannau Diffib £432.00
  6. Scottishpower £58.96
  7. G W Vermin Control Tyrchod y Fynwent 2020-2022 462.24
  8. D W Lewis Torri gwair Mawrth £340.00
  9. Eisteddfod Genedlaethol 2023 £750.00

Cytunwyd i gyfrannu £1500 dros 2 flynedd

Tal i mewn	Angladd	J Turner	£300.00
------------	---------	----------	---------
9. Ceisiadau Nawdd Dim Cais
10. Prosiectau
  - a. Prosiect Ysgol Y Faenol
  - b. Logo Newydd
  - c. Septic Tanc Glasinfryn
  - d. Capel y Fynwent
11. I'w trafod hefyd
  - a. Cofrestr Risg/Polisia

# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid rhithiol gynhalwyd nos Fercher 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2022

1. Presennol Cyng L A James – Cadeirydd, Cyng D W Jones, Cyng J Pierce Cyng D Jones-Morris a'r Cyng B. Jones  
Clerc E Jones

2. Ymddiheuriadau Cyng M Lynch

3. Cod Ymddygiad J Pierce a L A James yn datgan ei bod yn rhan o bwyllgor y Ganolfan yn
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 23-02-2022  
Derbynwyd eu bod yn gofnod cywir ar gynnig Cyng D W Jones gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce

5. Materion yn codi o'r cofnodion  
Dim nad oedd wedi ei gynnwys ar yr Agenda

6. Adroddiad Ariannol

Rhanwyd yr adroddiad ariannol ar y sgrin oedd yn dangos cyfanswm o £25,248.88c yn y Cyfrif Cyfredol a £35,041.97 yn y cyfrif Cadwy n dilyn derbyn llog o £1.71

7. Archwyllo Allannol Er cysylltu a'r Swyddfa Archwyllo Cymru i holi os oedd diweddariad nid oedd ymateb wedi ei dderbyn

8. Taliadau angen sylw Argymell fod yr isod yn cael ei talu

I.	Cyflog Mawrth	£724.64
II.	HMRC Mawrth M12	£181.20
III.	Cymen Cyfieithu	£457.16
IV.	Ffenestri'r Heulwen	£4395.00

Nodwyd oherwydd prinder amser i anfon a chyflwyno cyn diwedd y flwyddyn ariannol fod y taliadau isod eisioes wedi eu cymeradwyo yn y Cyngor Llawn 10fed o fawrth i'w talu o'r flwyddyn ariannol yma

- I. Peter Burgess am agor a chlirio allan manhole Canolfan Glasinfryn £456.00
- II. Delwedd Lletya a chynnal a chadw y Wefan £431.28
- III. Gamlins x 2 Gwaith Canolfan glasinfryn a Gwaith Ysgol y faenol £1632.44
- IV. Unllais Cymru £489.00
- V. Costau'r Clerc
- VI. Cyngor Gwynedd – bocs trydannol i Diffib Glasinfryn £576.00
- VII. Dwr Cymru Carffosiaeth Glasinfryn £1297.00
- VIII. Traelia Cynghorwyr x 10 = £1500.00
- IX. Eisteddfod Genedlaethol 2023 Cytunwyd i gyfrannu £1500 dros 2 flynedd felly £750 eleni

Hefyd Nawdd	1	Clwb Arlunio Glasinfryn	£300.00
	2	Cylch Glasinfryn	£300.00
	3	Ioga Glasinfryn	£300.00

Tal i mewn	£610.00	2 Angladd	J Turner £110
			E W Pritchard £500

- 9 Ceisiadau Nawdd Dim Cais

- 10 Prosiectau

- a. Prosiect Ysgol Y Faenol Adroddwyd fod cyfarfod safle wedi digwydd rhwng ein Cynrychiolydd ni Cyng L A James Swyddogion Gwynedd o'r adran Eiddo Stadau ag Iechyd a Diogelwch. Bydd ffens yn cael ei gosod i ddiogelu y disgyblion oddiwrth geir a bydd person o'r ysgol ar y giat yn ystod cyfnodau pan fyddai'r plant allan. Ni fyddai Capasiti yr Ysgol yn cynnyddu i'r 300+ tan Rhagfyr/Ionawr
- b. Logo Newydd Eto Cyng L A James wedi cysylltu hefo'r dylunydd ag wedi derbyn engreiffia o'r papur penawd a'r Logo mewn fersiwn argraffu Y dylunwyd yn mynd i brisio a hefyd ymgymeryd a cheisio cynhyrchu fidio o waith y Cyngor allai gael ei arddangos yn gyhoeddus

- c. Septic Tanc Glasinfryn Y Gwaith papur bellach yn ei le ar ol cryn drafferth o arwyddo cytundeb sydd bellach gan Dwr Cymru Gobeithio bydd y Gwaith yn cychwyn yn ystod Mis Mai
- d. Drysau / Ffenestri Glasinfryn Y Gwaith hwnnw wedi ei gwblhau
- e. Asesu cerrig beddi Soniodd y Clerc ei fod wedi trafod hefo Cwmni sy'n ymgymeryd a'r math yma o waith a'u bod am ddod yn ol ato yn ystod Ebrill/Mai
- f. Capel y Fynwent Cyfarfod cychwynnol wedi digwydd rhwng Cyng M Lynch y Clerc ag un o drigolion y pentref i arddangos y tu mewn. Cytunwyd i gysylltu hefo Swyddog Datblygu Ardal Cyngor Gwynedd i weld os oedd posib cael grant i gynnal astudiaeth dichonoldeb i weld faint o ddi-ddordeb oedd yna i sefydlu Adeilad Aml-bwrpas/Gymunedol yn ny Capel Clerc wedi cysylltu ond heb dderbyn ateb eto

#### 11 Trafodwyd hefyd

- a. Cofrestr Risg/Polisia  
Atgoffwyd fod rhai o'r Cynghorwyr wedi cytuno edrych ar y gofrestr risg oedd wedi ei darparu ag yn benodol edrych ar ffyrdd i leihau y risgiau oedd wedi eu adnabod a'i cofnodi mewn coch Clerc i atgoffa y Cynghorwyr erbyn y Cyngor LLawn nesaf yn Ebrill fel fod posib eu derbyn yn y Cyfarfod Blyneddol yn mis Mai
- b. Cododd y Cyng D Jones-Morris fod angen Cysgodfannau bws ar Ffordd Penrhos yn enwedig wrth drafaelio i gyfeiriad Felinheli  
Y clerch i holi Cyngor Gwynedd os oedd diweddariad ar y rhaglen adnewyddu cysgodfannau ar lwybr y bws T2
- c. Mynegodd y Cynghorydd hefyd fod y broblem o or-yrru yn parhau ar y ffordd brysur yma a bod angen i hynny gael ei fonitro yn amlach
- d. Datgelwyd siom fod y polyn ar gyfer 5G wedi cael ei osod mewn ffasiwn safle yng nghanol tai ag o flaen Ysbyty

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45